GwE

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF 2015**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Prif Flaenoriaethau GwE

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar brif flaenoriaethau'r gwasanaeth.

**2.0 Cefndir**

2.1 **Gwella ysgolion trwy consortia addysg rhanbarthol - adroddiad Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru** (atodiadau A a B)

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn cynnal arolwg er mwyn adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan gonsortia addysg rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Ar wahân, gofynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynnal astudiaeth o ddull Llywodraeth Cymru o wella ysgolion trwy gonsortia rhanbarthol.

Cynhaliodd staff Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ymweliadau gwaith maes â phob consortiwm rhanbarthol mewn partneriaeth a rhannwyd tystiolaeth rhwng y ddau sefydliad.
Roedd yr ymweliadau gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau â staff allweddol o bob consortiwm a'i awdurdodau lleol cysylltiedig. Cynhaliwyd yr ymweliad i GwE yn ystod ail wythnos mis Ionawr 2015.
Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys craffu ar ystod eang o dystiolaeth o ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

2.2 **TUAG AT RAGORIAETH: Datblygu system hunan wella ysgol ar draws rhanbarth Gogledd Cymru**

Nod y model yw sefydlu dull newydd o weithio i'r rhanbarth sy'n adeiladu cynhwysedd o fewn ein hysgolion i ddatblygu system hunan wella gynaliadwy drwy broses o herio a chefnogi ar y cyd.

**2.3 Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth**

Nodwyd GwE yr angen i ddatblygu rhaglen datblygu arweinyddiaeth effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth. Nod y rhaglen yw sicrhau DPP o ansawdd ar gyfer ymarferwyr yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu profiadau datblygu arweinyddiaeth benodol sy'n gyson â llwybr arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n flaenoriaeth i sicrhau bod RDA GwE yn bodloni gofynion Cymwys am Oes – Amcan 4 – ac yn parhau i ddatblygu meddylfryd system ysgolion hunan-wella.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mewn ymateb i adroddiadau ac argymhellion Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru, mae bob blaenoriaeth i'w chynnwys yn y Cynllun Busnes 3 blynedd sydd yn cael ei ddatblygu. Y rhain wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau blwyddyn un. Mae'r cyflwyniad yn rhoi manylion pellach ynglŷn â'r hyn sydd i'w gyflawni (atodiad C).

3.2 Bwriad Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yw rhoi mwy o annibyniaeth i'n hysgolion gorau. Mae GwE wedi ymrwymo i ddatblygu system hunan wella ysgol sydd wedi'i seilio ar y gred mai gan ysgolion eraill y ceir y gefnogaeth orau yn aml. Fel rhanbarth, bwriad GwE yw addasu model newydd o weithio sy'n adeiladu cynhwysedd i hunan wella drwy wneud y gorau o'r arbenigedd sydd yn ein hysgolion a symud yr wybodaeth honno o gwmpas. Mae'r cyflwyniad yn rhoi manylion pellach ynglŷn â'r hyn sydd i'w gyflawni (atodiad D).

3.3 Mae'r cyflwyniad (atodiad E) yn rhoi manylion pellach ynglŷn â'r heriau, cyfleoedd a'r sefyllfa bresennol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Ymgynghorol GwE, Bwrdd Rheoli GwE a Grwp Defnyddwyr GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad A: Adroddiad Estyn - Gwella ysgolion trwy consortia rhanbarthol – Mehefin 2015 http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/360414.6/Gwella%20ysgolion%20trwy%20gonsortia%20addysg%20rhanbarthol%20-%20Mehefin%202015/?navmap=30,163,

9.2 Atodiad B: Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/sicrhau-gwelliannau-yn-y-cymorth-i-ysgolion-trwy-gonsortia-addysg-rhanbarthol-%E2%80%93-darlun

9.3 Atodiad C: Ymateb i argymhellion Estyn a SAC – yr heriau a'r cyfleoedd

9.4 Atodiad D: Cefnogaeth a Her GwE – 2015/16

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Cyflwynir sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyflwynir sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor